

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

139/52

DYLUNIO A THECHNOLEG

PAPUR 2

MAES PENODOL: TECHNOLEG BWYD

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

P.M. DYDD MAWRTH, 5 Mehefin 2007

(1½ awr)

	Gadewch yn wag
Cwestiwn 1	
Cwestiwn 2	
Cwestiwn 3	
Cwestiwn 4	
Cwestiwn 5	
CYFANSWM Y MARCIAU	

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen pensiliau lliw arnoch ar gyfer yr arholiad hwn.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

1. Mae'r llun isod yn dangos rhai bwydydd byrbryd (*snack foods*) poblogaidd.



- (a) (i) **Enwch un** bwyd byrbryd a welir yn y llun sy'n cynnwys llawer o siwgr. [1]

.....

- (ii) **Enwch ddau** fwyd byrbryd a welir yn y llun sy'n cynnwys llawer o fraster. [2]

.....

.....

- (iii) **Enwch un** bwyd byrbryd a welir yn y llun sy'n ddewis iachach a **rhowch un** rheswm dros eich dewis.

Bwyd byrbryd [1]

Rheswm

..... [2]

- (b) Gall deiet gwael arwain at lawer o broblemau iechyd. Defnyddiwch y rhestr o eiriau isod i **gwblhau** r brawddegau sy'n dilyn.

braster siwgr ffibr halen

- Gall gormod o dirlawn godi'r lefel o golesterol a gallai achosi clefyd y galon. [1]
- Gall gormod o arwain at bydredd dannedd ac ennill gormod o bwysau. [1]
- Gall gormod o achosi pwysedd gwaed uchel a all arwain at strôc. [1]

- (c) Mae gwneuthurwyr yn datblygu cynhyrchion bwyd newydd. Mae'r llun isod yn dangos rhai diodydd ffrwythau newydd.



- (i) **Rhowch un** rheswm pam y mae gwneuthurwyr yn datblygu cynhyrchion bwyd newydd. [2]

.....

.....

- (ii) **Rhestrwch ddau** reswm pam y mae defnyddiwr yn debygol o brynu'r diodydd ffrwythau. 2 x [1]

Rheswm 1:

Rheswm 2:

- (iii) Mae rhai pobl yn poeni am yr amgylchedd. **Rhowch un** rheswm amgylcheddol pam na fyddai rhai pobl yn prynu'r diodydd hyn. [2]

.....

.....

- (ch) **Ticiwch (✓) un** blwch i ddangos y gosodiad cywir isod. [1]

- Mae fitamin C yn rhoi egni;
- Mae fitamin C yn eich helpu i gollu pwysau;
- Mae fitamin C yn helpu i gadw croen a deintgig (*gums*) yn iach.

2. (a) Mae bwydydd amrwd yn cael eu prosesu i ddarparu amrywiaeth o ddefnyddiau bwyd y gellir eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd.

Cwblhewch y tabl isod. *Mae un enghraifft wedi'i gwneud i chi.*

[2]

Bwyd amrwd	Defnydd bwyd	Cynnyrch bwyd
<i>Ffa soia</i>	<i>TVP</i>	<i>Selsigen lysieuol</i>
Betys siwgr	Taffi
Grawn gwenith	Crwst

- (b) Mae'r defnyddiau bwyd sylfaenol ar gyfer gwneud teisen yn cael eu dangos isod. Mae pob un yn cyflawni swyddogaethau *synhwyraidd* a *ffisegol* pwysig.



- (i) Yn y tabl isod, **rhestrwch un** o'r defnyddiau bwyd sydd â swyddogaeth *synhwyraidd* a **nodwch** beth yw'r swyddogaeth honno.

[2]

Defnydd bwyd	Swyddogaeth synhwyraidd
.....

- (ii) **Tanlinellwch** brif swyddogaethau *ffisegol* cywir y defnyddiau bwyd a ddefnyddir i wneud teisennau.

[3]

- Defnyddir blawd ar gyfer melysu / swmpuso / emwlseiddio;
- Defnyddir wyau ar gyfer breuo / rhoi blas / codi;
- Defnyddir margarin ar gyfer breuo / beindio / codi.

- (c) **Esboniwch un** ffordd o wneud teisen iachach.

[2]

.....

.....

(ch) **Astudiwch** y ddwy rysáit ar gyfer teisennau a roddir isod, ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Rysáit 1		Rysáit 2	
100g	Blawd Codi	200g	Blawd Codi
100g	Siwgr Mân	100g	Siwgr Mân
100g	Margarin	100g	Margarin
2	Wy	1	Wy

(i) **Nodwch** y gymhareb o fraster i flawd yn Rysáit 1. [1]

(ii) **Nodwch** y gymhareb o fraster i flawd yn Rysáit 2. [1]

(iii) **Esboniwch** pam y mae gan deisen sy'n cael ei gwneud o **Rysáit 2** ansawdd mwy sych a briwsionllyd na theisen sy'n cael ei gwneud o **Rysáit 1**. [2]

.....
.....

(d) Mae'r llun isod yn dangos nifer mawr o deisennau'n cael eu gwneud mewn diwydiant. Mae gwneuthurwyr yn ceisio sicrhau bod pob teisen yr un fath wrth gynhyrchu pob swp o deisennau (*in every production run*).



Nodwch sut y mae gwneuthurwyr yn sicrhau bod pob teisen yr un fath o ran:

• Siâp; [1]

• Lliw; [1]

• Pwysau. [1]

3. (a) Mae micro-organebau yn gwneud i fwydydd bydru. **Rhowch gylch am ddau** air o'r rhestr isod sy'n ficro-organebau. 2 x [1]

calsiwm **Ilwydni** *tofu* **protein** **bacteria**
(*mould*)



- (b) (i) Mae rhai dulliau o gadw bwydydd wedi'u rhestru isod. Mae pob dull yn atal neu'n arafu twf micro-organebau. **Esboniwch** sut y mae **pob** dull yn gweithio.

Mae un enghraifft wedi'i gwneud i chi.

2 x [2]

Cynnyrch Bwyd	Dull o atal twf micro-organebau	Sut mae pob dull yn gweithio
<i>Pysgod</i>	<i>Canio</i>	<i>Mae'r tymheredd uchel a ddefnyddir yn ystod canio yn dinistrio micro-organebau.</i>
Llysiau	Rhewi
Cig moch	Pacio gwactod


- (ii) **Rhowch ddwy** reol y mae pawb sy'n trin bwyd yn gorfod eu dilyn wrth baratoi cynhyrchion bwyd. 2 x [1]

Rheol 1:

Rheol 2:

- (iii) Mae llawer o uwchfarchnadoedd yn gwerthu cywion ieir cyfan wedi'u rhostio. Mae'r diagram isod yn dangos proses gynhyrchu symledig. Dangosir dau wiriad diogelwch (*safety check*). **Cwblhewch** y diagram i ddangos **dau** wiriad diogelwch arall y mae angen eu gwneud. 2 x [2]

Y Broses



Gwiriad diogelwch posibl

Gwirio bod tymheredd y rhewgell wedi'i osod ar -18°C

.....

.....



Bob 20 munud, gwirio bod y tymheredd yn gyson

- (c) Mae gwneuthurwr bwyd yn datblygu dewis (*range*) newydd o frechdanau poeth wedi'u tostio ar gyfer pobl yn eu harddegau. Enw'r dewis newydd fydd 'Tosti'.

Dyluniwch ddelwedd addas i'w rhoi ar y pecyn. Lluniadwch eich delwedd yn y **siâp hirgrwn mawr** isod.

Rhoddir marciau am:

- | | |
|--|-----|
| (i) cynnwys enw'r cynnyrch; | [3] |
| (ii) dangos beth yw'r llenwad; | [3] |
| (iii) y defnydd o liw ac ansawdd y cyfathrebu. | [3] |



TUDALEN WAG

4. (a) Mae gwneuthurwyr yn defnyddio symbolau ar y labeli ar becynnau bwyd. **Nodwch** beth yw ystyr **pob** symbol isod.



..... [1]



..... [1]

- (b) Dyma label sy'n rhoi manylion maethol pot o 'gyri cyw iâr thai gwyrdd gyda reis'.



Gwerthoedd Nodweddiadol am bob 100g	
Egni	190 kcal
Protein	6.3g
Carbohydrad	18.8g
Braster	9.8g

- (i) **Nodwch** brif swyddogaeth carbohydrad yn y deiet. [1]

.....

- (ii) **Rhowch ddau** reswm maethol pam y mae angen protein yn y deiet. [2]

Rheswm 1

Rheswm 2

- (iii) **Rhowch gylch am y ddau** fitamin sy'n debygol o fod yn bresennol mewn braster. [2]

A B C D

- (iv) Mae rhai gwneuthurwyr bwyd yn gwneud cynhyrchion sy'n gallu cael eu storio am hyd at flwyddyn.
Ticiwch (✓) y golofn ar y dde i ddangos y **ddau** grŵp o ychwanegion a fydd yn **estyn** oes silff bwydydd. [2]

Grŵp o Ychwanegion	Yn estyn oes silff
Emwlsyddion	
Gwrthocsidyddion	
Sefydlogyddion	
Cyffeithyddion	

(c) Defnyddir profion dadansoddiad synhwyaidd gan dechnolegwyr bwyd i werthuso (*evaluate*) y cyri yn ystod y cyfnod datblygu.

(i) **Enwch un** enghraifft benodol o brawf dadansoddiad synhwyaidd. [1]

.....

(ii) **Nodwch i beth** y defnyddir y prawf. [1]

.....

(iii) **Disgrifiwch** sut i baratoi ar gyfer (*set up*) y prawf. [4]

.....

.....


.....

.....

(ch) Gellir defnyddio proffil seren i ddangos canlyniadau prawf dadansoddiad synhwyaidd ar y cyri. Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl i **gwblhau'r** proffil seren sydd wedi cael ei ddechrau isod. [7]


<i>ANSAWDD</i>	<i>GRADD</i>
Arogl	Boddhaol
Trwch y saws	Da iawn
Golwg	Da
Ansawdd y cyw iâr	Ardderchog
Blas poeth	Gwael iawn

Allwedd: 1 = Ardderchog
5 = Gwael iawn



Trosodd.

5. Mae gwneuthurwr yn bwriadu datblygu pryd parod iach i un person. Dangosir y syniad cyffredinol ar gyfer y cynnyrch isod. Mae gofyn i chi ddylunio cynnyrch crwst sawrus ar gyfer y pryd hwn.



- (a) **Brasluniwch, lliwiwch a labelwch ddau** ddyluniad *gwahanol* ar gyfer cynnyrch crwst sawrus, diddorol ac iach.

Rhaid i'r cynnyrch crwst:

- ffitio i'r rhan o'r cynhwysydd a ddangosir uchod;
- bod â chasin crwst neu waelod crwst diddorol;
- cynnwys ffynhonnell dda o brotein;
- cynnwys llawer o ffibr.

Rhoddir marciau am:

- (i) dylunio cynnyrch crwst sawrus, diddorol ac iach sy'n cynnwys protein a ffibr; 2 x [3]
- (ii) labelu'n fanwl yr **holl** ddefnyddiau bwyd a ddefnyddir i wneud y cynnyrch crwst; 2 x [4]
- (iii) ansawdd y cyfathrebu, gan gynnwys **trawstoriad** trwy'r cynnyrch crwst a **dimensiynau** r cynnyrch. 2 x [4]

Dyluniad 1	Peidiwch â lluniadu'r defnydd pacio

Dyluniad 2	Peidiwch â lluniadu'r defnydd pacio

Ticiwch (✓) y blwch i ddangos eich dyluniad **gorau**.

Dyluniad 1

Dyluniad 2

(b) **Nodwch dri** rheswm *synhwyrdd* pam y byddai eich dyluniad gorau yn apelio at gwsmeriaid. [3]

Rheswm synhwyrdd 1:

Rheswm synhwyrdd 2:

Rheswm synhwyrdd 3:

